



**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

**OFFERYNNAU STATUDOL**

**STATUTORY INSTRUMENTS**

**2003 Rhif 3035 (Cy.283)**

**2003 No. 3035 (W.283)**

**PYSGODFEYDD MÔR,  
CYMRU**

**SEA FISHERIES,  
WALES**

**CADWRAETH PYSGOD MÔR**

**CONSERVATION OF SEA FISH**

**Gorchymyn Rhwydi Pysgota  
Perdys (Cymru) 2003**

**The Shrimp Fishing Nets (Wales)  
Order 2003**

**NODYN ESBONIADOL**

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

*(This note is not part of the Order)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn rheoli cario a defnyddio unrhyw rwydi pysgota gyda maint eu masgl rhwng 16 a 31 milimetr, wedi ei fesur yn unol â Rheoliad y Comisiwn (EEC) Rhif 2108/1984 dyddiedig 23 Gorffennaf 1984. Mae'n nodi'r darpariaethau cenedlaethol y gelwir amdanynt gan Erthygl 25 o Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 850/98 dyddiedig 30 Mawrth 1998, drwy bennu treillrwydi gwahanu a gridiau didoli fel y mathau o ddyfais y mae angen eu defnyddio.

This Order regulates the carriage and use of any fishing nets with mesh size between 16 and 31 millimetres, measured in accordance with Commission Regulation (EEC) No. 2108/1984 of 23rd July 1984. It sets out the national provisions called for by Article 25 of Council Regulation (EC) No. 850/98 of 30th March 1998, by specifying separator trawls and sorting grids as the types of device required to be used.

Mae'r Gorchymyn yn gymwys i gychod pysgota Prydeinig yn nyfroedd Cymru ac yn eu gwahardd rhag cario neu ddefnyddio rhwydi o'r fath ac eithrio o dan amgylchiadau penodol (erthygl 3). Mae cymeryd mesurau ar gyfer cadw a rheoli stociau o dan Erthygl 46 o Reoliad y Cyngor 850/98 yn ddarostyngedig i amod fod y mesurau yn gymwys i bysgotwyr yr Aelod-wladwriaeth berthnasol yn unig.

The Order applies to British fishing boats in Welsh waters and prohibits them from carrying or using such nets other than in certain specified circumstances (article 3). The taking of measures for the conservation and management of stocks under Article 46 of Council Regulation 850/98 is subject to a condition that the measures apply solely to the fishermen of the Member State concerned.

Yr eithriadau penodol yw pan fydd atodiadau a ddiffinir wedi eu rhoi gyda'r rhwyd (erthygl 3(1)(a)-(b)), pan na fydd unrhyw bysgod môr wedi eu dal (erthygl 3(1)(c)) neu pan fydd llai na 60% yn ôl pwysau byw o gyfanswm yr haldiad yn berdys cyffredin neu'n berdys Aesop neu'n gyfuniad o'r ddau, a bod unrhyw bysgod môr a gedwir ar y cwch yn cael eu cadw yn unol ag erthygl 25 o Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 850/98 (erthygl 3(1)(d)).

The specified exceptions are where defined attachments are fitted to the net (article 3(1)(a)-(b)), where no sea fish have been caught (article 3(1)(c)) or where less than 60% by live weight of the total catch comprises common shrimps and/or Aesop shrimps, and any sea fish retained on board are retained in accordance with Article 25 of Council Regulation (EC) No. 850/98 (article 3(1)(d)).

Pan fydd unrhyw gwch yn torri'r gwaharddiad hwn, bydd y meist, y perchennog a'r siartwr yn euog o dramgwydd ac yn agored i ddirwy heb fod yn fwy na £5,000 o'i gollfarnu'n ddiannod, ac o'i gollfarnu ar ddiad i ddirwy (adranau 3(5) ac 11(1)(b) o Ddeddf Pysgod Môr (Cadwraeth) 1967). Caiff y llys hefyd osod dirwy ychwanegol heb fod yn fwy na gwerth y pysgod a ddaliwyd â'r rhwyd neu orchymyn fforffedu'r rhwyd (adran 11(2)-(3) o Ddeddf 1967).

Yn ogystal, mae'r Gorchymyn yn rhoi pwerau gorfodi i swyddogion pysgodfeydd môr Prydeinig at ddibenion gorfodi'r Gorchymyn hwn neu unrhyw Orchymyn cyfatebol sy'n gweithredu gwaharddiadau tebyg mewn perthynas ag unrhyw gategoriâu o gwch pysgota.

Paratowyd Arfarniad Rheoliadol ac fe'i hadneuwyd yn Llyfrgell y Cynulliad Cenedlaethol. Gellir cael copi oddi wrth yr Is-adran Polisi Amaethyddiaeth a Physgodfeydd, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

If any boat breaches this prohibition, the master, owner and charterer is guilty of an offence and is liable to a fine not exceeding £5,000 on summary conviction and on conviction on indictment to a fine (sections 3(5) and 11(1)(b) of the Sea Fish (Conservation) Act 1967). The court may also impose an additional fine not exceeding the value of the fish caught with the net or order the net's forfeiture (section 11(2)-(3) of the 1967 Act).

Additionally the Order confers powers of enforcement on British sea-fishery officers for the purposes of enforcing this Order or any equivalent Order implementing similar prohibitions in relation to any categories of fishing boat.

A Regulatory Appraisal has been prepared and deposited in the Library of the National Assembly. A copy may be obtained from the Agriculture and Fisheries Policy Division, Welsh Assembly Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

**2003 Rhif 3035 (Cy.283)****2003 No. 3035 (W.283)****PYSGODFEYDD MÔR,  
CYMRU****SEA FISHERIES,  
WALES****CADWRAETH PYSGOD MÔR****CONSERVATION OF SEA FISH****Gorchymyn Rhwydi Pysgota  
Perdys (Cymru) 2003****The Shrimp Fishing Nets (Wales)  
Order 2003***Wedi'u gwneud* 26 Tachwedd 2003*Made* 26th November 2003*Yn dod i rym* 30 Tachwedd 2003*Coming into force* 30th November 2003

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 5(1) a 15(3) o Ddeddf Pysgodfeydd Môr (Cadwraeth) 1967(a), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred on it by sections 5(1) and 15(3) of the Sea Fish (Conservation) Act 1967(a), hereby makes the following Order:

**Enwi, cychwyn a dehongli**

1.-(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Rhwydi Pysgota Perdys (Cymru) 2003 a daw i rym ar 30 Tachwedd 2003.

**Title, commencement and application**

1.-(1) This Order is called the Shrimp Fishing Nets (Wales) Order 2003 and comes into force on 30th November 2003.

(a) 1967 p.84. Amnewidiwyd adran 5(1) gan Ddeddf Pysgodfeydd 1981 (p.29) adran 22(1). Amnewidiwyd adran 15(3) gan Ddeddf Pysgodfeydd Môr 1968 (p.77) adran 22(1), Atodlen 1, paragraff 38(3) a'i diwygio gan Ddeddf Terfynau Pysgodfeydd 1976 (p.86) adran 9(1), Atodlen 2, paragraff 16(1) ac O.S. 1999/1820, Erthygl 4, Atodlen 2, paragraff 43(2)(b). *Gweler* adran 22(2) i gael y diffiniad o "the Ministers" at ddbenion adran 5 a 15(3); cafodd adran 22(2) ei diwygio gan Ddeddf Pysgodfeydd 1981, adrannau 19(2)(d) a 45(b) ac (c) a chan O.S. 1999/1820, Erthygl 4, paragraff 43(12) o Atodlen 2. Yn rhinwedd erthygl 2(a) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) trosglwyddwyd y swyddogaethau sy'n arferadwy o dan Ddeddf 1967 i'r Cynulliad Cenedlaethol i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru (a ddiffinir yn adran 155(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p.38) fel ei fod i gynnwys "the sea adjacent to Wales out as far as the seaward boundary of the territorial sea"); mewn perthynas â dyfroedd y tu hwnt i Gymru mae'r swyddogaethau hyn yn parhau i gael eu harfer gan y Gweinidogion. Mae erthygl 3(1) ac Atodlen 1 o Orchymyn Deddf yr Alban 1998 (Swyddogaethau Cyfamserol) 1999 (O.S. 1999/1592) yn darparu bod y swyddogaethau sy'n arferadwy o dan adrannau 5 a 15(3) o Ddeddf 1967 i'w harfer gan y Gweinidogion, yn gydamserol â Gweinidogion yr Alban, mewn perthynas â'r canlynol: cychod pysgota Prydeinig perthnasol o fewn parth yr Alban; a chychod pysgota'r Alban o fewn terfynau pysgodfeydd Prydain ond y tu allan i barth yr Alban. Yn rhinwedd erthygl 2(1) o Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Amaethyddiaeth a Physgodfeydd) 2000 (O.S. 2000/1812) trosglwyddwyd unrhyw swyddogaethau a oedd yn weddill gan Ysgrifenyddion Gwladol Cymru a'r Alban o dan adrannau 5 a 15(3) o Ddeddf 1967 i'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd, ac yn eu tro (ynghyd â swyddogaethau eraill) i'r Ysgrifennydd Gwladol gan O.S. 2002/794.

(a) 1967 c.84. Section 5(1) was substituted by the Fisheries Act 1981 (c.29), section 22(1). Section 15(3) was substituted by the Sea Fisheries Act 1968 (c.77) section 22(1), Schedule 1, paragraph 38(3) and amended by the Fishery Limits Act 1976 (c.86) section 9(1), Schedule 2, paragraph 16(1) and S.I. 1999/1820, Article 4, Schedule 2, paragraph 43(2)(b). *See* section 22(2)(a) for definitions of "the Ministers" for the purposes of sections 5 and 15(3); section 22(2) was amended by the Fisheries Act 1981, sections 19(2)(d) and 45(b) and (c) and by S.I. 1999/1820, Article 4, paragraph 43(12) of Schedule 2. By virtue of article 2(a) of the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) functions exercisable under the 1967 Act were transferred to the National Assembly in so far as exercisable in relation to Wales (defined in section 155(1) of the Government of Wales Act 1998 (c.38) as including "the sea adjacent to Wales out as far as the seaward boundary of the territorial sea"); in respect of waters beyond Wales these functions remain exercisable by the Ministers. Article 3(1) and Schedule 1 of the Scotland Act 1998 (Concurrent Functions) Order 1999 (S.I. 1999/1592) provide for the functions exercisable under sections 5 and 15(3) of the 1967 Act to be exercised by the Ministers, concurrently with Scottish Ministers, in relation to: relevant British fishing boats within the Scottish zone; and, Scottish fishing boats within British fishery limits but outside the Scottish zone. By virtue of article 2(1) of the Transfer of Functions (Agriculture and Fisheries) Order 2000 (S.I. 2000/1812) any remaining functions of the Secretaries of State for Scotland and Wales under sections 5 and 15(3) of the 1967 Act were transferred to the Minister of Agriculture, Fisheries and Food, and in turn (together with other functions) to the Secretary of State by S.I. 2002/794.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru(a).

## Dehongli

2.-(1) Yn y Gorchymyn hwn-

ystyr "cwch pysgota Prydeinig" ("*British fishing boat*") yw cwch pysgota sydd naill ai wedi'i gofrestru yn y Deyrnas Unedig o dan Ran II o Ddeddf Llongau Masnachol 1995(b) neu sydd dan berchenogaeth lwyr personau sy'n gymwys i berchenogi llongau Prydeinig at ddibenion y rhan honno o'r Ddeddf honno; ac ystyr "pen y cwd" ("*codend*") yw'r rhan olaf un o rwyd, a luniwyd o un neu fwy o baneli yn cynnwys darnau o rwydwe y mae maint ei masgl yr un fath a'r darnau hynny wedi'u cysylltu â'i gilydd ar hyd eu hymylon yn echel hir y rhwyd gan gareiau.

(2) At ddibenion y Gorchymyn hwn, rhaid mesur masgl rhwyd neu rwydwe yn unol â Rheoliad y Comisiwn (EEC) Rhif 2108/1984 ar 23 Gorffennaf 1984 sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer penderfynu maint masgl rhwydi pysgota(c) ac a ddiwygiwyd gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2550/1997(ch).

## Gwahardd pysgota perdys heb dreillrwyd wahanu neu grid didoli

3. Gwaherddir cychod pysgota Prydeinig rhag cario na defnyddio rhwyd, y mae mesur ei masgl rhwng 16 a 31 milimetr oni bai fod yr amodau canlynol wedi'u bodloni -

- (a) bod rhwydwe, y mae ei masgl yn mesur o leiaf ddwywaith mesur pen y cwd a dim mwy na 70 milimetr, wedi ei rhoi ar draws holl drawsdoriaid y rhwyd yn y fath fodd -
  - (i) na all pysgod gyrraedd pen y cwd heb yn gyntaf fynd drwy'r rhwydwe; a
  - (ii) bod twll yn y rhwyd y mae'r holl bysgod nad ydynt ym mynd drwy'r rhwydwe yn gallu ffoi drwyddo;
- (b) bod grid anhyblyg, nad yw'r gofod rhwng ei fariâu yn fwy nag 20 milimetr wedi ei roi ar draws holl drawsdoriaid y rhwyd yn y fath fodd -
  - (i) na all pysgod gyrraedd pen y cwd heb yn gyntaf fynd drwy'r grid; a
  - (ii) bod twll yn y rhwyd y mae'r holl bysgod nad ydynt ym mynd drwy'r grid yn gallu ffoi drwyddo;

(a) Gan gynnwys "the sea adjacent to Wales out as far as the seaward boundary of the territorial sea" (adran 155 (1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p.38)) ac yn unol ag erthygl 6 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 3 iddo ynghylch aberoedd yr Hafren a'r Ddyfrdwy.

(b) 1995 p.21.

(c) OJ Rhif L194, 24.7.1984, t.22.

(ch) OJ Rhif L349, 19.12.1997, t.1.

(2) This Order applies to Wales(a).

## Interpretation

2.-(1) In this Order:

"British fishing boat" ("*cwch pysgota Prydeinig*") means a fishing boat which is either registered in the United Kingdom under Part II of the Merchant Shipping Act 1995(b) or is owned wholly by persons qualified to own British ships for the purposes of that part of that Act; and

"codend" ("*pen y cwd*") means the rearmost part of a net, being made up of one or more panels comprising pieces of netting of the same mesh size attached to one another along their sides in the long axis of the net by a lacing.

(2) For the purpose of this Order, the mesh of a net or netting shall be measured in accordance with Commission Regulation (EEC) No. 2108/1984 of 23rd July 1984 laying down detailed rules for determining the mesh size of fishing nets(c) as amended by Commission Regulation (EC) No. 2550/1997(d).

## Prohibition on fishing for shrimps without a separator trawl or sorting grid

3. British fishing boats are prohibited from carrying or deploying a net, whose mesh measures between 16 and 31 millimetres unless -

- (a) netting, the mesh of which measures at least twice that of the codend and nor more than 70 millimetres, is fitted across the entire cross-section of the net in such a way that -
  - (i) fish cannot reach the codend without first passing through the netting; and
  - (ii) there is a hole in the net through which all fish that do not pass through the netting are able to escape;
- (b) a rigid grid, the spacing between the bars of which is no more than 20 millimetres is fitted across the entire cross-section of the net in such a way that -
  - (i) fish cannot reach the codend without first passing through the grid; and
  - (ii) there is a hole in the net through which all fish that do not pass through the grid are able to escape.

(a) Including "the sea adjacent to Wales out as far as the seaward boundary of the territorial sea" (section 155 (1) of the Government of Wales Act 1998 (p.38)) and in accordance with article 6 of the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672), and Schedule 3 to it, in relation to the Severn and Dee Estuaries.

(b) 1995 c.21.

(c) OJ No. L194, 24.7.1984, p.22.

(d) OJ No. L349, 19.12.1997, p.1.

- (c) na chadwyd unrhyw bysgod ar fwrdd y cwch; neu
- (ch) os oes unrhyw bysgod wedi'u cadw ar fwrdd y cwch, bod llai na 60% yn ôl pwysau byw cyfanswm yr haldiad a gadwyd yn cynnwys perdys cyffredin (*Crangon* spp.), perdys Aesop (*Pandalus montagui*) neu gyfuniad o'r ddau.

#### **Pwerau swyddogion pysgodfeydd môr Prydeinig**

4.-(1) At ddibenion gorfodi'r Gorchymyn hwn, caiff swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig arfer y pwerau a roddir gan yr erthygl hon mewn perthynas ag unrhyw gwch pysgota Prydeinig y mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys iddo.

(2) Caiff y swyddog fynd ar fwrdd y cwch, gyda neu heb bersonau a neilltuwyd i gynorthwyo, a chaiff fynnu bod y cwch yn stopio a gwneud unrhyw beth arall a fyddai'n hwyluso mynd ar fwrdd y cwch.

(3) Caiff y swyddog fynnu presenoldeb y meist'r ac unrhyw berson arall sydd ar y cwch a chaiff wneud unrhyw archwiliad neu ymholiad sy'n ymddangos iddo ef neu iddi hi yn angenrheidiol at y diben o orfodi'r Gorchymyn hwn, ac yn arbennig -

- (a) caiff archwilio unrhyw bysgod ar y cwch hwnnw a chyfarpar y cwch, gan gynnwys yr offer pysgota, a chaiff fynnu bod personau sydd ar fwrdd y cwch yn gwneud unrhyw beth sy'n ymddangos i'r swyddog yn angenrheidiol ar gyfer hwyluso'r archwiliad; a
- (b) caiff fynnu bod unrhyw berson sydd ar fwrdd y cwch yn dangos unrhyw ddogfen ynglŷn â'r cwch, ag unrhyw weithrediadau pysgota neu unrhyw weithrediadau ategol iddynt neu â'r personau sydd ar fwrdd y cwch sydd yng ngwarchodaeth neu feddiant y person hwnnw a chaiff gymryd copïau o unrhyw ddogfen o'r fath;
- (c) er mwyn canfod a yw meist'r, perchennog neu siartrwr y cwch wedi cyflawni unrhyw dramgwydd o dan adran 3(5) o Ddeddf Pysgod Môr (Cadwraeth) 1967 fel y'i darllenir ynghyd â'r Gorchymyn hwn, caiff chwilio'r cwch am unrhyw ddogfen o'r fath a gall fynnu bod unrhyw berson ar fwrdd y cwch yn gwneud unrhyw beth sy'n ymddangos i'r swyddog yn angenrheidiol i hwyluso'r chwilio;
- (ch) os oes gan y swyddog reswm dros amau fod tramgwydd o'r fath wedi'i gyflawni, caiff gymryd a chadw unrhyw ddogfen o'r fath a ddangosir iddo neu iddi neu a ddeuir o hyd iddi er mwyn galluogi defnyddio'r ddogfen fel tystiolaeth mewn unrhyw achos ynglŷn â'r tramgwydd;

ond nid yw unrhyw beth yn is-baragraff (ch) uchod yn caniatáu cymryd a chadw unrhyw ddogfen y mae'r gyfraith yn mynnu ei bod yn cael ei chario ar fwrdd y cwch, ac eithrio pan fydd y cwch yn cael ei ddal mewn porthladd.

- (c) no fish have been retained on board the boat; or
- (d) where fish have been retained on board the boat, less than 60% by live weight of the total catch retained comprises common shrimps (*Crangon* spp.), Aesop shrimps (*Pandalus montagui*) or a combination of the two.

#### **Powers of British Sea-fishery officers**

4.-(1) For the purposes of enforcing this Order, a British sea fisheries officer may exercise the powers conferred by this article in relation to any British fishing boat to which this Order applies.

(2) The officer may go on board the boat, with or without persons assigned to assist in his or her duties, and for that purpose may require the boat to stop and do anything else which will facilitate the boarding of the boat.

(3) The officer may require the attendance of the master and other persons on board the boat and may make any examination and inquiry which appears to him or her to be necessary for the purpose of enforcing this Order, and, in particular -

- (a) may examine any fish on that boat and the equipment of the boat, including the fishing gear, and require persons on board the boat to do anything which appears to the officer to be necessary for facilitating the examination; and
- (b) may require any person on board the boat to produce any document relating to the boat, to its fishing operations or other operations ancillary thereto or to the persons on board which is in that person's custody or possession and may take copies of any such document;
- (c) for the purpose of ascertaining whether the master, owner or charterer of the boat has committed an offence under section 3(5) of the Sea Fish (Conservation) Act 1967 as read with this Order, may search the boat for any such document and may require any person on board the boat to do anything which appears to the officer to be necessary for facilitating the search;
- (d) where the boat is one in relation to which the officer has reason to suspect that such an offence has been committed, may seize and detain any such document produced to him or her or found on board for the purpose of enabling the document to be used as evidence in proceedings for the offence;

but nothing in sub-paragraph (d) above shall permit any document required by law to be carried on board the boat to be seized and detained except while the boat is detained in a port.

(4) Pan fydd yn ymddangos i swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig fod unrhyw ddarpariaeth yn y Gorchymyn hwn wedi'i dorri, caiff y swyddog -

(a) fynnu bod meist'r y cwch y cyflawnwyd y toriad mewn cysylltiad ag ef yn mynd â'r cwch a'i griw i'r porthladd sy'n ymddangos i'r swyddog fel y porthladd cyfleus agosaf; a

(b) dal, neu fynnu bod y meist'r yn dal, y cwch yn y porthladd;

a phan fydd swyddog o'r fath yn dal, neu'n mynnu bod y cwch yn cael ei ddal, rhaid iddo gyflwyno i'r meist'r hysbysiad ysgrifenedig yn datgan y bydd y cwch yn cael ei ddal neu fod angen ei ddal hyd oni thynnir yr hysbysiad yn ôl drwy gyflwyno i'r meist'r hysbysiad ysgrifenedig arall a lofnodwyd gan swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(a)

26 Tachwedd 2003

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(4) Where it appears to a British sea-fishery officer that a contravention of any provision of this Order has at any time taken place, the officer may -

(a) require the master of the boat in relation to which the contravention took place to take, or may himself or herself take, the boat and its crew to the port which appears to the officer to be the nearest convenient port; and

(b) detain or require the master to detain the boat in the port;

and where such an officer detains or requires the detention of a boat the officer shall serve on the master a notice in writing stating that the boat will be or is required to be detained until the notice is withdrawn by the service on the master of a further notice in writing signed by a British sea-fishery officer.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(a)

26th November 2003

The Presiding Officer of the National Assembly

*D. Elis-Thomas*

---

(a) 1998 p.38.

---

(a) 1998 c.38.



---

OFFERYNNAU STATUDOL

---

**2003 Rhif 3035 (Cy.283)**

**PYSGODFEYDD MÔR,  
CYMRU**

**CADWRAETH PYSGOD MÔR**

**Gorchymyn Rhwydi Pysgota  
Perdys (Cymru) 2003**

---

STATUTORY INSTRUMENTS

---

**2003 No. 3035 (W.283)**

**SEA FISHERIES,  
WALES**

**CONSERVATION OF SEA FISH**

**The Shrimp Fishing Nets (Wales)  
Order 2003**

© Hawlfraint y Goron 2003

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

**£2.00**


W187/12/03

ON

© Crown copyright 2003

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090813-9



9 780110 908137